| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 Medi 2016** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ac Archwiliad perthnasol** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;**<br>• **Adroddiadau 'ISA260' Deloitte;**<br>• **Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1).** |
| ARGYMHELLIAD | **Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyrau.** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**1. CYFRIFON 2015/16**

Bydd aelodau yn cofio cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon 2015/16 (cyn archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Gorffennaf 2016, pryd bu craffu priodol.

**2. ARCHWILIAD GAN DELOITTE AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, a chyflwynir yma adroddiadau 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte.

**3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2015/16**

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2015/16. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i adroddiad 'ISA260' Deloitte.

**4. ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer:
  - Cyngor Gwynedd
  - Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2015/16 (ôl-archwiliad)

**5. LLYTHYRAU CYNRYCHIOLAETH**

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiadau Deloitte) wedi i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r uchod.

**6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG**

Wedi iddo dderbyn y Llythyrau Cynrychiolaeth wedi'u hardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Huw Vaughan Thomas) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.